

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrosesu deunydd coedlannu a chynnyrch pren gwyrdd. Mae'n cynnwys tarddu, asesu ansawdd pren a phrosesu'r deunyddiau craidd i fodloni'r manylebau.

Mae'n cynnwys y broses o ddewis pren crwn, paratoi'r pren gan ddefnyddio'r dulliau priodol a chreu cynnyrch pren crwn, neu rannau o gynnyrch, unwaith y mae'r pren crwn wedi cael ei droi'n gyflwr y gellir gweithio ag ef.

Mae'n cynnwys:

- dilyn manylebau
- nodi ansawdd y pren sydd ei angen ar gyfer y prosiect
- lleoli a chael pren crwn ar gyfer y prosiect
- adeiladu'r offer a'r cyfarpar priodol

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith arfaethedig
2. dewis a gweithredu dulliau gwaith priodol, yn unol â'r peryglon a aseswyd
3. dewis a defnyddio'r offer amddiffynnol personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith
4. dewis, paratoi a defnyddio'r offer a'r cyfarpar, yn ddiogel ac yn effeithiol
5. cadarnhau bod yr holl offer wedi cael ei wirio a'i fod yn addas at y diben
6. cytuno ar y fanyleb ar gyfer cynnyrch pren gwyrdd
7. cynllunio amserlen waith i gynyddu'r defnydd o ddeunydd coedlannu a lleihau gwastraff
8. adnabod, dewis a pharatoi pren ar gyfer cynnyrch pren gwyrdd
9. asesu ansawdd pren ar gyfer ei addasrwydd ar gyfer y cynnyrch pren gwyrdd
10. prosesu deunyddiau coedlannu yn gynnyrch pren gwyrdd, gan ddefnyddio prosesau priodol
11. adeiladu cynnyrch pren gwyrdd i fodloni'r fanyleb
12. ffurfio a chyflwyno cynnyrch pren gwyrdd er mwyn iddynt fodloni'r fanyleb
13. gwirio bod y cynnyrch pren gwyrdd yn bodloni eu manylebau
14. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill yr holl amser, yn unol â deddfwriaeth berthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg
2. sut i ddehongli asesiadau risg
3. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol (PPE)
4. y mathau o offer a chyfarpar sy'n ofynnol a sut i gynnal a defnyddio'r rhain yn ddiogel ac yn effeithiol yn unol ag argymhellion y cynhyrchydd
5. y gofynion cyfreithiol ar gyfer gwirio offer
6. sut i ddehongli'r manylebau er mwyn nodi a phrisio pob elfen ar gyfer gwaith
7. elfennau, prif ddefnydd ar gyfer a'r cynnyrch y gellir ei wneud o rywogaethau sylfaenol coedlannau
8. sut i adnabod pa bren sydd fwyaf priodol i'w ddefnyddio a'r prif resymau dros y dewis hwnnw
9. tymoroldeb deunyddiau coedlan a sut y gall hyn effeithio ar argaeledd a gwydnwch cynnyrch
10. y dulliau a ddefnyddir i ehangu bywyd ymarferol deunyddiau coedlannau tymhorol
11. sut i asesu ansawdd deunydd coedlannau
12. yr offer llaw priodol a ddefnyddir i ffurfio'r pren
13. y prosesau a'r offer gwahanol a ddefnyddir i ffurfio'r pren
14. nodweddion hanfodol cynnyrch coedlannau, gan ystyried y manylebau
15. nodweddion a defnydd gwahanol rywogaethau gwahanol o goed coetir
16. sut i asesu pren am addasrwydd ar gyfer cynnyrch pren gwyrdd
17. sut i gyfateb nodweddion y deunyddiau i'r cynnyrch
18. sut i weithio mathau gwahanol o goed wedi hollti
19. sut i ffurfio a gorffen cynnyrch sylfaenol neu rannau o gynnyrch
20. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch presennol

## Cwmpas/Ystod

Asesu pren ar gyfer y canlynol:

- cyfradd twf
- strwythur a pharhad graen
- presenoldeb clymau
- ymosodiad ffwng
- ymosodiad pryfed
- graddau tymheru
- oed
- pydredd, holltau a choesau

Prosesau priodol i gynnwys:

- hollti, ymlynu, rhannu
- llifio
- bwyellu, torri
- torri â chyllell dynnu
- plicio.

Pren o'r canlynol:

- collen
- derw
- onnen
- helygen
- sycamorwydden
- bedwen
- ffawydden
- castanwydden

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Elfennau yn cynnwys:

- amcangyfrif faint o ddeunyddiau sydd eu hangen
- cyfradd yr ymgymeriad
- osgoi gôr/tan-stocio

## Geirfa

Gall yr **amserlen waith** fod ar lafar neu'n ysgrifenedig

## Prosesu deunydd coedlannu a chynnyrch pren gwyrdd

---

<b>Datblygwyd gan</b>	Lantra
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	28 Chwef 2017
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	28 Chwef 2021
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Lantra
<b>RCU gwreiddiol</b>	LANTw56
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Coedlannu
<b>Cyfes/Set</b>	Garddwriaeth, Coedyddiaeth
<b>Geiriau Allweddol</b>	coedlan; deunyddiau; pren gwyrdd; cynnyrch; coed; pren

---